Cylchgrawn
Hwyl yr Haf

Sgwrs gyda Iolo
Stori gan Bethan Gwanas
Garddio gwych
A llawer mwy...

EADYTH A KIZZY CRAWFORD

Dwy chwaer sy'n caru cerddoriaeth

BWYD BLASUS A IACHUS

Rysáit Elisabeth Haljas

EISTEDDFOD AMGEN

Hoff ganeuon Gwilym Bowen Rhys

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

Hwyl yr HAF

Croeso

Croeso i gylchgrawn Hwyl yr Haf!

Dych chi'n gallu mwynhau erthyglau diddorol, cyfweliadau gyda phobl enwog a syniadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Byddwch chi'n dysgu geiriau newydd, ac yn defnyddio'r Gymraeg dych chi wedi ei dysgu yn y dosbarth.

'Dyn ni wedi bod yn brysur yn ddiweddar, achos mae miloedd o ddysgwyr newydd wedi dechrau dysgu ar gyrsiau 'o bell' ac ar-lein. 'Dyn ni'n clywed llawer o storïau am bobl sy'n mwynhau dysgu'r iaith, mewn cyfnod sy wedi bod yn anodd achos feirws Covid-19.

Bydd haf 2020 yn wahanol, ond mae digon o gyfleoedd i chi ymarfer a mwynhau'r Gymraeg. Bydd cyrsiau Dysgu Cymraeg newydd yn dechrau ym mis Medi a 'dyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu nôl.

Mwynhewch y darllen a diolch yn fawr iawn i chi am bob cefnogaeth.

Efa Gruffudd Jones
Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn edrych ar ôl y sector Dysgu Cymraeg. Mae'n gweithio gyda 11 darparwr cwrs i drefnu cyrsiau Cymraeg. Am fwy o wybodaeth, ewch i dysgucymraeg.cymru Yn y cylchgrawn yma, mae triongl melyn ar bwys erthygl yn golygu bod yr erthygl yn addas i bawb; mae triongl glas yn golygu addas ar gyfer dysgwyr mwy profiadol – OND, 'dyn ni'n gobeithio bod rhywbeth yma i bawb! Rhowch gynnig arni – gobeithio byddwch chi'n hapus i weld faint dych chi'n ei ddeall. Mwynhewch y cylchgrawn. Mae croeso i chi e-bostio swyddfa@dysgucymraeg.cymru gyda'ch sylwadau neu syniadau.

Efa Gruffudd Jones, Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh, welcomes you to this magazine for Welsh learners. The Centre works with 11 course providers to deliver a range of Welsh courses. Go to learnwelsh.cymru for more information. In this magazine, a yellow triangle means an article is suitable for all. A blue triangle means an article is most suitable for learners at Canolradd/Intermediate + Levels. HOWEVER, we hope there's something here for everyone – just give it a go! Enjoy the magazine – please send any comments or suggestions to office@learnwelsh.cymru

Eisiau dysgu mwy o Gymraeg?

Mae cyrsiau newydd yn dechrau ym mis Medi, ar gyfer pob lefel.

Dysgwch Gymraeg yn eich cegin, eich gardd, ar y soffa...

Bargen! Cyw Cynnar o 50% ar gael hyd at ddiwedd mis Gorffennaf. Ewch i dysgucymraeg.cymru i ddod o hyd i'ch cwrs newydd.

New tutor-led 'distance learning' Welsh courses at all levels are starting in September – register and pay before the end of July for a 50% Early Bird discount.

Her yr Haf

Mae digon o gyfleoedd i ddefnyddio a mwynhau eich Cymraeg dros yr haf.

Beth am wylio rhaglen Gymraeg fel 'Iaith ar Daith' neu ddarllen un o lyfrau 'Amdani'? Beth am ddysgu enwau Cymraeg adar neu wrando ar Radio Cymru am bum munud bob dydd? Gwnewch y pethau hyn a llenwch y ffurflen Her yr Haf i gael cyfle i ennill cwrs am ddim.

Diolch i Bethan, un o'n tiwtoriaid yn y Gogledd Orllewin, am y syniadau eraill yma:

- Be' am ymuno efo sesiwn paned a sgwrs ar-lein? Cyfle gwych i ymarfer a chyfarfod pobl newydd!
- Os dach chi'n mynd am dro, be am nodi rhai pethau dach chi'n eu gweld ar hyd y ffordd a chwilio am y gair Cymraeg amdanyn nhw e.e. aderyn neu flodyn newydd
- Be' am wrando ar gân ar y radio bob wythnos a dewis pump gair newydd i ddysgu o'r gân?
- Be' am gael sgwrs o bell yn yr awyr iach neu ar-lein gyda ffrind yn y Gymraeg?
- Ysgrifennwch neges ar y cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg.
- Os oes gyda chi blant bach, be' am wylio rhaglenni Cyw ar S4C?
- Cadwch lygad am gigs Cymraeg ar-lein dros yr haf, fel Gigs Cantre'r Gwaelod ar Facebook.

There are plenty of ways to keep your Welsh going over the summer – why not take our Summer Challenge for a chance to win a free course?

Y seren Olympaidd, Colin Jackson, a'i fentor, y cyflwynydd radio Eleri Siôn, yn y gyfres Iaith ar Daith ar S4C.

Cynnwys

Eisiau jin? **5-6**
Hanes cwmni Treganna Gin

Helpu yn y cyfnod clo **7**
Hanes Janet, tiwtor Dysgu Cymraeg

Sgwrs gyda Rosie **8**
Cyfweliad gyda Dysgwr yr Eisteddfod T

Dewch am dro **9-10**
Pentref Dysgu Cymraeg yr Eisteddfod AmGen

Byw yn yr ardd **11-12**
Llysiau a blodau o bob math

Y caffi **13**
Stori gan Bethan Gwanas

'Ifor Bach' **14**
Adolygiad llyfr gan Nigel Blake

Cyfweliad Iolo Williams **15-16**
Y dyn adar

Bwyd blasus **17**
Sut i wneud rholiau'r haf

Dysgu o bell **18**
Y fam yn Coventry a'r ferch yn Sweden

Sgwrs gyda Eadyth a Kizzy Crawford **19-20**
Dwy chwaer sy'n caru cerddoriaeth

5-6
EISIAU JIN?
Hanes cwmni Treganna Gin

8
SGWRS GYDA ROSIE
Cyfweliad gyda Dysgwr yr Eisteddfod T

11-12
BYW YN YR ARDD
Llysiau a blodau o bob math

15-16
CYFWELIAD IOLO WILLIAMS
Y dyn adar

17
BWYD BLASUS
Sut i wneud rholiau'r haf

NEWID BYD i Mark

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn adnabod Mark Flanagan fel actor. Dechreuodd actio yn y ddrama 'Tipyn o Stad' pan oedd yn yr ysgol yng Nghaernarfon. Am ddeg mlynedd, fe oedd 'Jinx' yn Pobol y Cwm, ac mae wedi actio mewn rhaglenni eraill, yn Gymraeg a Saesneg.

Yn ddiweddar, mae Mark, sy'n byw yng Nghaerdydd gyda'i bartner, Rachel, a'u plant, wedi dechrau busnes bach, sef cwmni **gwirod** o'r enw 'Treganna Gin.'

Mae Mark wrth ei fodd yn tyfu llysiau ac yn gwneud gwin, a dyna sut cafodd e'r syniad o ddechrau gwneud jin fel busnes.

JINX YN FFAN O JIN...

"Mae bywyd actor yn gallu bod yn un **ansicr**," meddai Mark, "a gyda theulu ifanc, ro'n i eisiau gwaith ychwanegol. Roedd yn bwysig bod y gwaith yn **hyblyg** fel fy mod i'n gallu cario ymlaen i actio, ac felly roedd gweithio i fy hunan yn apelio.

"Ges i'r syniad i greu jin newydd achos fy niddordeb mewn creu **cynnyrch** fy hun. Dw i'n mwynhau ambell i jin, hefyd – does dim llawer o galorïau yn perthyn iddo (oni bai eich bod chi'n ychwanegu *mixers*) ac fel rhywun sy'n hoffi cadw'n heini a bod yn ofalus gyda fy neiet, dw i'n hoffi hynny."

PA RYSÁIT?

Dechreuodd Mark ar y gwaith yn 2018. Prynodd **ddistyllyr** a dechrau gweithio ar sawl rysáit. Y 'botanicals' – cynnyrch **planhigion** – sy'n cael eu rhoi yn yr alcohol sy'n rhoi blas i'r jin.

Mae'n rhaid cael **eithinen bêr**, ond dyw Mark ddim yn hapus i ddweud beth arall sy yn y jin!

Dechreuodd y cwmni newydd ym mis Rhagfyr 2019, gyda label retro hyfryd. Ei ffrind, Richard Titchy, wnaeth y label iddo fe. Roedd yn amser da o'r flwyddyn i ddechrau cwmni jin, gyda lot fawr o gwsmeriaid yn prynu potel fel anrheg Nadolig.

"Roedd yr **ymateb** yn dda iawn," meddai Mark. "Roedd galw am y jin newydd yma o Gaerdydd, ac felly roedden ni'n hyderus i gario ymlaen gyda'r syniad."

Ond, wrth gwrs, daeth sialensiau newydd gyda'r coronafeirws.

CYFNOD CORONA

"Doedd hi ddim y bosib prynu **hylif diheintio dwylo** reit ar ddechrau'r cyfnod," meddai Mark, "ac roedd yn bosib i ni helpu, trwy ddefnyddio'r distyllyr i wneud ein hylif diheintio ein hun o alcohol."

Yn y lle cyntaf, gwnaeth Mark yr hylif ar gyfer teulu a ffrindiau, ond yna, wrth weld y galw mawr, penderfynodd wneud mwy.

Ar dudalen Facebook y cwmni, gofynnodd Mark am hen boteli o alcohol, i'w defnyddio i greu'r hylif. Atebodd 70 o bobl, ac aeth Mark i gasglu'r poteli o stepen drws pob cartref – roedd sawl potel o ddiod egsotig, gan gynnwys Ouzo, diod o Wlad Groeg, a Raki, diod o Dwrci.

Gwnaeth gannoedd o boteli bach o'r hylif diheintio dwylo, a'u rhoi ar fwrdd yng nghanol parc lleol, Parc Fictoria, i bobl helpu eu hunain.

"Roedd yr ymateb yn ardderchog," meddai Mark, "ac ro'n i'n falch o helpu."

Y DYFODOL

Mae Mark wedi **dal ati** i wneud y jin dros y misoedd diwethaf. Mae e'n gwneud tua 90 potel bob wythnos, ac maen nhw ar werth trwy wefan y cwmni, https://tregannagin.co.uk/. Y peth nesaf fydd cael cytundeb gyda siop neu *deli*, fel bod y cwmni ar y Stryd Fawr.

PWY YW BILI'R MORLO?

Efallai eich bod chi'n gwybod am hanes y **morlo** sy ar label Treganna Gin, sef Bili'r Morlo. Cafodd Bili ei ddal gan long bysgota ym Mae Caerdydd ym 1912, ac aeth i fyw mewn sŵ bach ym Mharc Fictoria. Roedd pawb yn hoffi Bili yn fawr. Buodd e farw ym 1939 ac mae sgerbwd Bili yn Amgueddfa Cymru. Ysgrifennodd y canwr o Gaerdydd, Frank Hennessy, gân enwog amdano, Billy the Seal.

Actor Mark Flanagan, who played 'Jinx' in Pobol y Cwm for 10 years, has recently started a new venture, Treganna Gin. Mark talks about his reasons for starting the company and about how during the coronavirus he also produced hand sanitisers, which he distributed free to the local community. There's a recipe for a gin cocktail (or a mocktail, if you prefer) and you can also learn more about 'Billy the seal', who features on the company's eye-catching label.

SUT I WNEUD COCTEL JIN?

Os dych chi'n mwynhau jin, beth am drio'r coctel yma (os oes yn well gyda chi 'moctel', does dim rhaid i chi gynnwys y jin).

Cynhwysion

- Un ciwcymbr
- Un leim
- 50ml o Treganna Gin
- Dŵr tonig.

Dull

- Torrwch y ciwcymbr yn ddarnau bach iawn a'u cadw.
- Torrwch ddarnau mwy o'r ciwcymbr a'u **stwnsho** gyda'r sudd leim.
- Llenwch wydr gyda iâ, ac ychwanegwch 50ml o Treganna Gin, ac yna'r ciwcymbr a leim.
- Addurnwch gyda'r darnau bach o giwcymbr a **hadau** bach nigella.

Mwynhewch!

GEIRFA

gwirod	spirits
ansicr	uncertain
hyblyg	flexible
cynnyrch	produce
distyllyr	still
planhigion	plants
eithinen bêr	juniper
ymateb	response
hylif diheintio dwylo	hand sanitiser
dal ati	keep going
stwnsho	muddle
hadau	seeds
morlo	sea lion

Cadw'n brysur

Gyda'r cyfnod clo yn dechrau dod i ben, mae Janet Horbury, tiwtor gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, yn edrych yn ôl dros y misoedd diwethaf.

O ble wyt ti'n dod yn wreiddiol?
Dw i'n dod o Drebanos yn wreiddiol ond ro'n i'n treulio llawer o amser gyda fy Mam-gu ar y Gwrhyd ger Pontardawe pan o'n i'n blentyn.

Ers pryd wyt ti'n dysgu Cymraeg?
Cymraeg yw fy iaith gyntaf i. Ro'n i'n lwcus iawn, roedd pawb ar ein stryd ni'n siarad Cymraeg yn ystod y 1950au a'r 1960au. Hefyd, Cymraeg oedd iaith yr 'ysgol fach' - Ysgol Trebannws. Yn anffodus, daeth y cyfnod byr o siarad Cymraeg i ben pan es i'r 'ysgol fawr' i baratoi am yr 11 plus.

Sut wnest ti ymdopi yng nghanol y cyfnod clo?
Ro'n i'n iawn ar y dechrau. Y peth gorau oedd y **distawrwydd**. Mae sŵn y traffig o ffordd osgoi Pontardawe yn cyrraedd ein tŷ ni ac roedd bywyd heb wwwsh, wwwsh di-stop y traffig yn hyfryd. Erbyn hyn, mae'r sŵn yn ôl, ac ein bywyd pob dydd. Cadw'n brysur yw'r peth pwysicaf i fi. Dw i'n lwcus achos dw i'n gallu gweithio gartre ac wrth gwrs mae WhatsApp ar y ffôn symudol yn werth y byd. Beth faswn i'n ei wneud heb y gallu i gysylltu'n aml gyda fy nheulu a ffrindiau?

Sut mae dysgu Cymraeg wedi newid dros y misoedd diwethaf?
Ers i ni fynd ar-lein mae'r dosbarthiadau Cymraeg wedi newid llawer. Dydy'r bobl ddim wedi newid ond mae'n rhaid i bawb ymdopi. Dysgwraig ydw i nawr. Dysgu sut i ddysgu drwy ddefnyddio'r cyfrifiadur. Mae'n **her**. Y peth gorau yw - does dim eisiau gyrru i'r gwaith. Wedi dweud hynny, dw i'n dal i wisgo, rhoi colur a pharatoi fel taswn yn mynd i'r dosbarth go iawn. Ond, mewn gwirionedd, dw i'n cerdded i'r ystafell ffrynt!!

Sut wnest ti wirfoddoli yn ystod y cyfnod clo?
Cynnig help i fy nghymdogion oedd fy rheswm dros wirfoddoli. Dyma'r tro cyntaf i fi wneud y fath beth ac mae'n wir wedi bod yn bleser. Dw i wedi dod i 'nabod y bobl sy'n byw 'lawr yr hewl' ac mae llawer ohonyn nhw yn siarad tipyn o Gymraeg. Dw i'n teimlo'n rhan o gymuned. Teimlad gwych.

Sut wyt ti'n helpu?
Wel, dw i'n siopa am fwyd, casglu moddion o'r fferyllfa, mynd â Lulu am dro (ci bach annwyl) a beth bynnag sy angen ei wneud e.e. dw i'n byrhau llenni ar hyn o bryd - gobeithio na fyddan nhw'n rhy fyr!!

Beth yw dy hoff air Cymraeg?
Fy hoff air Cymraeg yw '**trugareddau**'. Mae'n fy atgoffa o fy Mam-gu. Doedd hi ddim yn hoffi 'trugareddau Dafydd', hynny yw 'stwff'. Felly, does dim llawer o 'drugareddau Dafydd' yn ein tŷ ni.

Beth yw dy gyngor i ddysgwyr yn ystod y cyfnod hwn?
Daliwch ati, peidiwch â bod yn ofnus o'r cyfrifiadur!

Janet Horbury, a tutor with Learn Welsh Swansea Bay Region, talks about her upbringing in Trebanos and about how volunteering during lockdown helped her feel part of her local community.

GEIRFA

distawrwydd	quiet
her	challenge
gwirfoddoli	volunteer
trugareddau	bits and pieces

SGWRS GYDA

Rosie

Enillodd Rosina Jones, neu Rosie, wobr Dysgwr yr Eisteddfod T, ym mis Mai. Mae Greta Evans yn ei holi.

Ar ôl ennill gwobr Dysgwr yr Eisteddfod T **eleni**, roedd Rosina Jones, sy'n 18 oed ac o Gaerdydd, wrth ei bodd.

Mae hi'n diolch i'r athrawon ardderchog yn Ysgol Uwchradd Caerdydd am fod mor ffantastig yn ei dysgu. Mae gan Rosie **angerdd** mawr dros ddysgu ieithoedd, ac mae'n mynd i astudio Ffrangeg ac Almaeneg ym Mhrifysgol Bryste.

Mae hi nawr ym Mlwyddyn 13, yn astudio Cymraeg, Hanes, a Ffrangeg, fel Lefel A, ac yn mynd i gymryd blwyddyn allan oherwydd y coronafeirws. Roedd e'n syrpreis iddi ennill, meddai hi. Yn y dyfodol, ar ôl y brifysgol, mae hi eisiau dod yn ôl i fyw yng Nghymru i fod yn athrawes.

Un ffordd mae Rosie wedi mwynhau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod clo yw trwy wylio S4C. Mae hi wrth ei bodd yn gwylio 'Iaith ar Daith'. Mae'n ddiddorol gweld profiadau dysgwyr eraill fel Ruth Jones a Colin Jackson. Mae'n hawdd dysgu mwy o Gymraeg gyda'r rhaglen, achos bod pawb yn siarad yn araf er mwyn **pwysleisio** geiriau newydd. Mae Rosie hefyd yn mwynhau'r ddrama 'Bang' (ond dyw hi heb orffen ei gwylio eto, felly dim *spoilers!*)

Pan ofynnais i i Rosie oedd gyda hi unrhyw gyngor i ddysgwyr, dywedodd hi bod angen derbyn na fyddwch chi'n deall popeth o'r cychwyn. Mae'n **ddefnyddiol** iawn i wneud rhestr o eiriau sy'n cael eu defnyddio yn aml. Wrth wylio'r teledu neu siarad Cymraeg yn yr ysgol wedyn, mae hi'n defnyddio'r rhestr i **atgoffa** ei hun ac i'w helpu i ddeall a siarad.

Cyngor arall Rosie yw, yn syml, i siarad. Siarad gyda dysgwyr a siaradwyr, mor aml â phosib – os nad dych chi'n gwybod y gair Cymraeg, mae'n iawn i ddefnyddio'r gair yn Saesneg. Y peth pwysig yw dal ati a gwneud eich gorau.

Er bod Rosie yn dysgu ers sawl blwyddyn yn yr ysgol, roedd hi'n ffeindio'r gwaith yn galed, yn teimlo ar goll weithiau. Mae'n dweud bod unrhywbeth yn bosib gydag ymarfer a **brwdfrydedd!**

Mae Rosie yn hoffi darllen ac ysgrifennu **llenyddiaeth**, ac mae wrth ei bodd yn ysgrifennu mewn ieithoedd gwahanol. Mae hoff air Cymraeg Rosie yn un diddorol: '**gwrthgyferbyniad**.' Pam? Achos ei fod e'n hwyl i'w ddweud!

Mae gan Rosie lawer o ddiddordebau eraill hefyd. Mae hi'n dringo, ac wedi bod yn gwneud ioga yn ystod y cyfnod clo. Hefyd, mae hi'n canu'r piano a'r gitâr. Yn syml, meddai, mae'n hoffi dysgu.

Rosina Jones, known as Rosie, is a pupil at Cardiff High School. Rosie won the Welsh learner prize at the 'Eisteddfod T' (the television version of the Urdd Eisteddfod, which could not be held as usual this year, because of the coronavirus). Rosie shares her top tips for learning Welsh and talks about her love of languages and of learning.

GEIRFA

eleni	this year
angerdd	passion
pwysleisio	emphasise
defnyddiol	useful
atgoffa	remind
dal ati	keep going
brwdfrydedd	enthusiasm
llenyddiaeth	literature
gwrthgyferbyniad	contrast

Dewch am dro i'r Pentref

Dysgu Cymraeg!

Dyw hi ddim yn bosib cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni, ond mae cynlluniau cyffrous ar gyfer Eisteddfod AmGen ar-lein.

Bydd yr Eisteddfod AmGen yn digwydd rhwng 1-8 Awst. Bydd **digwyddiadau** ar-lein o bob math. Bydd rhaglenni ar Radio Cymru, o'r 'Ŵyl AmGen', a gwobr arbennig ar gyfer 'Dysgwr yr Ŵyl AmGen'. Bydd S4C yn dangos rhaglenni am 8.00pm bob nos.

Yn y Pentref Dysgu Cymraeg **rhithiol**, bydd llawer o bethau i'w mwynhau.

9.30am Gwersi blasu
Bydd gwersi blasu bob bore - dwedwch wrth eich ffrindiau!

10.00am Bore coffi
Dewch i gwrdd â dysgwyr eraill am sgwrs.

12.00pm Stori awr ginio
Gwrandewch ar awduron **poblogaidd** yn darllen storïau newydd i ddysgwyr.

1.00pm Dysgwch sgil newydd
Bydd sesiynau coginio, garddio, ioga a thorri gwallt.

3.00pm Dewch i adnabod dysgwyr
Cyfle i wrando ar brofiad dysgwyr.

5.00pm Sesiynau diwedd dydd

- Codi hyder: Bydd y cyflwynydd a'r *entrepreneur*, Stifyn Parri, yn helpu **codi hyder** dysgwyr i siarad a mwynhau'r Gymraeg.
- Cerddoriaeth: Bydd Gwilym Bowen Rhys yn canu caneuon Cymraeg enwog.
- Drama: Bydd dramâu byr am bobl bwysig yn hanes Cymru.

Am fwy o fanylion, ewch i: https://eisteddfod.cymru/amgen

The annual National Eisteddfod is unable to take place this year, due to the coronavirus. Instead, an alternative festival will be held, online and on Radio Cymru and S4C. There will be a virtual 'Learn Welsh Village' with a range of activities for Welsh learners to enjoy.

GWILYM

Bydd y canwr Gwilym Bowen Rhys, sy yn y llun, yn perfformio yn y Pentref Dysgu Cymraeg. Mae'n sôn am ddwy o'i hoff ganeuon Cymraeg, Sosban Fach ac Oes Gafr Eto?

SOSBAN FACH

Mae ´Sosban Fach´ yn gân enwog iawn. Ein cân ´blues´ cenedlaethol! Mae popeth yn mynd o´i le yn y gân, ond i mi, mae hi´n gân hapus achos dw i´n ei chysylltu efo amseroedd da – gwylio gemau rygbi, neu bod yn y dafarn a rhywun yn dechrau canu 'Maaaaaaaae...´ a´r canu tri llais yn dechrau!

Wedi dweud hynny...mae llawer iawn o ganeuon ´tafarn´ Cymru yn dechrau efo´r gair ´mae´ - ´hen wlad fy nhadau´, ´sosban fach´, ´fflat huw puw´, mae´r rhestr yn parhau, felly mae canu´r gair ´Maaaaaaae...´ yn gallu achosi **dryswch** mawr.

OES GAFR ETO?

Cân boblogaidd arall ydy ´Oes gafr eto?´.

Mae llawer o ganeuon traddodiadol sy´n cynnwys y thema yma o gyfri geifr, ond hon ydi´r enwoca. Mae´n debyg bod tywysogion Gwynedd yn arfer ffermio geifr yn y canol oesoedd, ond ar ôl y goncwest, gyrrwyd y geifr i´r mynyddoedd... ac yn ôl y gân, yna y maen nhw hyd heddiw...ond heb eu **godro**!

Rhaid ei chanu yn gyflym gyflym, ond yn dal i ddweud y geiriau yn glir glir...sy'n sialens! Mae´n teimlo felly weithiau wrth ddysgu iaith!

Welsh folk singer Gwilym Bowen Rhys will be singing at the Pentref Dysgu Cymraeg. He talks about two of his favourite Welsh songs, Sosban Fach and Oes gafr eto?

GEIRFA

digwyddiadau	events
rhithiol	virtual
poblogaidd	popular
codi hyder	build confidence
dryswch	confusion
godro	to milk

GARDD MELANIE

Garddio gwych

Mae Melanie Dubber, Lorraine Lloyd, Loxy Baltazar a Sue 'Porffor' Jones yn dysgu Cymraeg gyda Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr. Maen nhw'n mwynhau garddio.

MELANIE

Mae Melanie wrth ei bodd yn yr ardd – neu yn y tŷ gwydr os yw'n wlyb.

Ers dwy flynedd, mae'n byw ar **dyddyn** sy'n agos at y môr. Mae llawer o ffrwythau yn yr ardd: afalau, **gellyg** ac **eirin**, mefus, **eirin mair** a chyrens coch. Mae Melanie hefyd yn tyfu llysiau: tatws, moron, cennin a bresych.

Mae'n hoffi blodau 'bwthyn' – **bysedd y blaidd, bysedd y cŵn, fioledau** ac ati. Mae'r **trwyn llo** yn dda eleni.

Mae'n plannu'r blodau a'r llysiau gyda'i gilydd. Dyw hi ddim yn defnyddio cemegion.

Mae Melanie'n gweithio'n galed yn yr ardd drwy'r flwyddyn!

LORRAINE

Mae Lorraine yn garddio ers 1988, pan brynodd hen dŷ yn **Swydd Gaint**. Roedd 'gardd bwthyn' hyfryd gyda hi, yn llawn planhigion **lluosflwydd**. Roedd yn drist i adael, ond roedd wedi dysgu llawer.

Symudodd i **Arberth** yn 2013 - roedd yr ardd yn llawn *leylandii*, ac yn eitha' bach. Mae wedi newid lot ers y dyddiau hynny. Mae Lorraine wedi prynu tir tu ôl i'r tŷ ac wedi dechrau gardd lysiau. Mae Lorraine yn teimlo'n gyffrous iawn.

Mae'n tyfu tatws, **blodfresych**, pys, **pwmpen** a **ffa**. Mae afalau, **llus**, cnau, eirin mair, **ceirios** a **mwyar duon** gyda hi. Mae wedi gwneud jam gyda'r eirin mair a blodau **ysgawen** – hyfryd!

Yn yr 1980au, roedd yn gweithio oriau hir ac felly plannodd lot o blanhigion lluosflwydd yn ei gardd – planhigion hyfryd a lliwgar, sy'n tyfu bob blwyddyn heb ffwdan. Pan symudodd yn ôl i Sir Benfro, roedd yn gwybod beth i wneud ac mae ei gardd yn lliwgar iawn erbyn hyn.

Mae Lorraine yn edrych ymlaen at weld y dahlias yn llawn lliw dros yr wythnosau nesaf.

GARDD LORRAINE

GARDD LOXY

GARDD SUE

LOXY

Cafodd Loxy ei geni yn Mexico City ac roedd hi'n byw yn Seattle am 30 mlynedd cyn symud i Gymru.

Mae hi wedi adeiladu sawl gardd, gyda blodau, llysiau a **pherlysiau**. Mae'n defnyddio **dulliau permaddiwylliant** – system **gynaliadwy** o dyfu bwyd.

Hoff flodyn Loxy yw **gwyddfid**, achos yr arogl hyfryd. Mae'n hoffi coriander – mae'n bwyta coriander bob dydd ac mae'n dda i chi.

Yn ystod Gorffennaf ac Awst, bydd Loxy yn plannu radis, letys a **betys** a llysiau ar gyfer y gaeaf, fel cennin, moron a blodfresych.

Bydd hi hefyd yn mwynhau bwyta'r bwyd dyfodd hi yn yr ardd.

SUE

Mae Sue 'Porffor' yn artist a **cherflunydd**.

Mae'n **angerddol** am berlysiau ers iddi fod yn ferch fach. Roedd ei mam bob amser yn coginio gyda pherlysiau a blodau **bwytadwy**.

Roedd Sue arfer gwerthu perlysiau mewn marchnad ffermwyr. Mae hefyd wedi creu gardd gyda ffrind yn Sioe Flodau RHS Tatton.

Ar hyn o byd, mae Sue yn byw mewn caban coed, wrth ymyl Cenarth. Mae wedi bod yn hau a thyfu perlysiau, llysiau salad, blodau bwytadwy a phlanhigion gwyllt.

Melanie, Lorraine, Loxy and Sue are keen learners and keen gardeners. They talk about their passion for growing their own produce – all kinds of vegetables, fruit and herbs – as well as their fondness of cottage garden flowers and colourful perennials.

GEIRFA

tyddyn	smallholding
gellyg	pears
eirin	plums
eirin mair	gooseberries
bysedd y blaidd	lupins
bysedd y cŵn	foxgloves
fioledau	pansies
trwyn llo	snapdragons
Swydd Gaint	Kent
lluosflwydd	perennials
Arberth	Narberth
blodfresych	cauliflower
pwmpen	pumpkin
ffa	beans
llus	blueberries
ceirios	cherries
mwyar duon	blackberries
ysgawen	elderflower
perlysiau	herbs
dulliau permaddiwylliant	permaculture methods
cynaliadwy	sustainable
gwyddfid	honeysuckle
betys	beetroot
cerflunydd	sculptor
angerddol	passionate
bwytadwy	edible

Y CAFFI

Yr awdur poblogaidd Bethan Gwanas sy wedi ysgrifennu stori arbennig ar gyfer cylchgrawn Hwyl yr Haf.

Roedd y caffi yn braf ac yn gynnes. Ac roedd y coffi yn dda ac yn boeth.

Roedd hen ddynes yn eistedd wrth un bwrdd wrth y ffenest, a gŵr a gwraig wrth fwrdd arall. Edrychodd yr hen ddynes drwy'r Daily Post, wedyn drwy'r ffenest. Dyn yn smocio wrth gerdded gyda'i gi. Merch yn chwerthin a fflyrtio gyda bachgen y tu allan i Boots. Pobl yn cerdded gyda bagiau siopa. Neb diddorol.

Sipiodd ei latte. Yna, gwelodd olau glas yn fflachio, ac yn sydyn, stopiodd car heddlu tu allan. Yna, car du, drud y tu ôl iddo fo. Aeth plismon a phlismones at y car du, a daeth dau ddyn allan, yn **flin**, ac yn datŵs i gyd.

"W! Diddorol!" meddai'r wraig wrth ei gŵr. "Drygs mae'n siŵr... cyffuriau."
"Hm. Mae'n bosib," meddai'r gŵr. "Neu GBH."

Roedd gan y ddau ddyn **gyhyrau** mawr.
"Neu yrru'n rhy gyflym," meddyliodd yr hen ddynes gan sipian ei latte.

Roedd y car yn un cryf, cyflym. Jaguar, ac roedd y blismones yn chwilio tu mewn.

"Neu gar wedi ei ddwyn..." meddai'r gŵr.
"W, ia! Neu rywbeth wedi ei ddwyn o leia," meddai ei wraig. "Hei! Mae hyn fel y teledu – fel gwylio Midsomer Murders neu Bang!"

Gwyliodd pawb y plismon yn sgwennu yn ei lyfr bach. Roedd pobl gyda bagiau siopa yn cerdded heibio yn araf iawn, iawn.

"Maen nhw'n edrych fel dynion drwg, tydyn?" meddai'r wraig.
"Ydyn, dynion **peryglus**," meddai'r gŵr. "O Lerpwl neu rywle, yn siŵr i ti."
"Oi, mae Dad yn dod o Lerpwl..." meddai'r wraig.
"O, ydy, mae'n ddrwg gen i. Ond ti'n gwybod be dw i'n ei feddwl... dydyn nhw ddim yn lleol."
"O, na. Does neb drwg yn byw fan hyn."

Ar ôl deg munud, daeth y blismones yn ôl allan o'r car.

"Aros funud," meddai'r wraig. "Mae hi'n siarad gyda nhw... ond – edrych!"

Roedd y dynion yn gwenu ac yn **ysgwyd llaw** gyda'r heddlu.

"Ooo..." meddai hi'n siomedig wrth wylio'r dynion yn mynd yn ôl i mewn i'r Jag du ac yn gyrru i ffwrdd.

Gwyliodd yr hen ddynes yr heddlu yn mynd yn ôl i mewn i'w car nhw, a gyrru i ffwrdd. Gorffennodd ei latte a gadael y caffi gyda'i bag mawr du; bag oedd yn cuddio **gemau a deiamwntiau** gwerth can mil o bunnoedd a phistol Glock 17.

Gwenodd ar y gŵr a'r wraig wrth basio'r ffenest.

Looks can be deceptive in this new short story by popular Welsh author and experienced Welsh tutor, Bethan Gwanas.

GEIRFA

blin (gogledd) **crac** (de)	angry
cyhyrau	muscles
peryglus	dangerous
ysgwyd llaw	to shake hands
gemau a deiamwntiau	jewels and diamonds

"Chwip o stori dda..."

Nigel Blake sy'n adolygu 'Ifor Bach', llyfr gan Eurig Salisbury am un o arglwyddi canoloesol Cymru, Ifor ap Meurig.

Nofel hanesyddol yw hon sy'n gyffrous, clyfar ac yn llawn cymeriadau cryf. Mae Eurig Salisbury yn defnyddio ei ddychymyg a'i wybodaeth academaidd a barddonol i greu byd **ffuglennol** a **chredadwy** yng Nghymru'r 12fed ganrif. Mae'r stori wedi'i **lleoli** yn ardal Senghennydd, de ddwyrain Cymru, ac mae'n sôn am yr Arglwydd Ifor. Mae'r Normaniaid wedi **meddiannu** rhannau o Gymru ac mae'r Cymry'n byw yn anghysurus ochr yn ochr â'r **goresgynwyr**.

Y prif gymeriadau yw gwraig Ifor, Nest a'u merch Gwenllïan - mae mwy nag un **bardd** hefyd! Cymeriad arall yw'r eira a **thirlun** de ddwyrain Cymru yn ystod y gaeaf. Mae'r Arglwydd Ifor, ei deulu a'i ffrindiau yn **datrys** sawl **dirgelwch** ac yn **ymdopi** gyda **newyn** a'r oerfel. Mae Eurig yn dod â digwyddiadau go iawn at ei gilydd – cymdogion **cwerylgar** ac arglwyddi Normanaidd **llwynogaidd**.

Dw i'n siŵr y bydd oedolion yn mwynhau'r llyfr, yn enwedig dysgwyr, yn ogystal â phobl ifanc yn eu harddegau.

Mewn gwirionedd, mae Eurig yn ysgrifennu mewn ffordd eithaf **ffurfiol**, sy'n rhoi rhyw fath o **arlliw** sepia addas i'r stori. Dyma i chi gyfle i ddysgu patrymau gramadegol **anghyfarwydd!** Ond peidiwch â phoeni - mae **taflenni geirfa** ar gael.

Erbyn diwedd y nofel, byddwch chi wedi dysgu rhywbeth newydd am hanes Cymru a bywydau beirdd a phobl yn y 12fed ganrif. Ar ben hynny, fe gewch chi eich **cyfareddu** gan chwip o stori dda.

Nigel Blake started learning Welsh when he and his partner moved from Suffolk to Plwmp, Cardiganshire, seven years ago. Nigel has written this review about a novel called 'Ifor Bach', written by poet and lecturer, Eurig Salisbury. According to Nigel, it's a cracking read which brings alive the story of one of Wales' 12th century lords, Ifor ap Meurig.

GEIRFA

canoloesol	medieval
ffuglennol	fictional
credadwy	believable
lleoli	to set
meddiannu	occupy
goresgynwyr	invaders
bardd	poet
tirlun	landscape
datrys	solve
dirgelwch	mystery
ymdopi	cope
newyn	famine
cwerylgar	argumentative
llwynogaidd	sly
arddegau	teens
ffurfiol	formal
arlliw	tint
anghyfarwydd	unfamiliar
cyfareddu	charmed

Gair gan Nigel: *"Dw i'n byw yng nghanol y byd, sef Plwmp, Ceredigion ble mae'r haul yn disgleirio bob dydd trwy'r flwyddyn! Dw i'n byw yma ers saith blynedd er bod fy mhartner wedi bod yn ymweld â'n bwthyn bach ers roedd hi'n blentyn. Symudon ni o Suffolk ar ôl ymddeol a dechrau dysgu Cymraeg yn syth. Dw i'n mynd i ddosbarthiadau yn Llandysul ac Aberteifi - mae'r profiad yn hwyl ac yn fywiog. Dw i wrth fy modd nawr achos mae fy Nghymraeg wedi helpu fi gwneud cam i mewn i'r byd Cymry. 'Dyn ni'n gallu ymuno â'r gymdeithas gyfan. Mae e'n ffantastig!"*

Mae Iolo Williams yn arbenigwr ar adar. Mae hefyd yn gyflwynydd teledu enwog yng Nghymru a thu hwnt, ac wedi bod yn ffilmio rhaglen 'Springwatch' y BBC yn ystod y cyfnod clo. Hawys Roberts sy'n ei holi.

Pryd wnaeth eich diddordeb mewn adar a byd natur ddechrau?
Mae'r diddordeb mawr ym myd natur wedi bod yna **ers cyn cof**. Dw i'n cofio gwylio adar yn yr ardd gyda mam a mynd allan am dro i chwilio am fywyd gwyllt. Roedd fy rhieni a taid yn gefnogol iawn.

Pa aderyn yw'r mwyaf diddorol yn eich barn chi?
Mae pob un aderyn yn ddiddorol yn ei ffordd ei hun. Mae bywyd rhywiol **llwyd y berth**, er enghraifft, yn ddigon i **ddeffro'r meirw**! Mae'n anodd gwella ar hanes **y gog** sy'n dodwy ei wyau mewn nythod adar eraill cyn mynd yn ôl i'r Affrig ar ôl treulio llai na 3 mis yn y wlad yma.

Beth fasech chi'n dweud wrth rywun sy eisiau dechrau gwylio adar?
Y cyngor gorau yw i fwynhau ac i beidio bod ofn gwneud camgymeriadau. Dw i'n dysgu pethau newydd bob wythnos ac yn hoffi gwrando ar arbenigwyr yn siarad am eu pwnc. Codwch o'r soffa, ewch allan, gwyliwch a gwrandewch.

Pam mae dysgu am fyd natur yn bwysig?
Mae dysgu am fyd natur yn hollbwysig am lawer o resymau. Mae'n hwyl ac achos ei fod yn tynnu pobl i'r awyr agored, mae'n dda ar gyfer y corff a'r meddwl. Yn fwy na hynny, os yw pobl yn hoffi ac yn gwerthfawrogi byd natur, maen nhw'n fodlon ymladd i'w **ddiogelu** ar gyfer ein plant.

Lle dach chi'n hoffi gwylio adar?
Mae'n amhosibl dewis un lle i fynd i wylio adar. Os dw i eisiau gweld adar y coed, bydda i'n mynd i Goedydd Maentwrog yn y gwanwyn; i weld adar y môr, dw i'n mynd i Ynys Sgomer neu **Ynys Lawd** ym mis Mai; i fwynhau adar yr aberoedd, mae Burton Mere Wetlands yn wych yn y gaeaf. Felly does dim un safle yn well na'r llall, mae'n dibynnu ar yr amser o'r flwyddyn.

Beth dach chi'n hoffi ei wneud pan dach chi ddim yn gweithio?
Pan dw i ddim yn gweithio, dw i'n gweithio! Dw i'n lwcus iawn fy mod yn caru fy ngwaith - pan dw i'n cael amser i ffwrdd, bydda i'n gwylio bywyd gwyllt. Dw i hefyd yn mwynhau chwaraeon, yn enwedig rygbi, a theithio.

Beth yw effaith y cyfnod clo ar y byd adar – oes mwy o adar anarferol i'w gweld ar hyn o bryd?
Effaith tymor byr mae'r cyfnod clo wedi ei gael ar fyd natur. Gyda llai o draffig, roedd llai o anifeiliaid yn cael eu lladd. Doedd y cynghorau ddim yn torri'r gwair felly fe ffynnodd y blodau a'r gwenyn. Rwan bod y cyfnod clo yn dod i ben, mae'r traffig yn ôl a'r cyngor yn torri'r cloddiau unwaith eto. Yr un newid mawr dw i'n gobeithio amdano yw bod mwy o bobl wedi cysylltu gyda byd natur ac yn parhau i fynd allan am dro i'w fwynhau.

Sut oedd ffilmio Springwatch yn ystod y cyfnod clo?
Roedd yn brofiad gwahanol. Fel arfer bydd tua 120 ohonon ni'n dod at ein gilydd mewn un lle ond y tro yma, roedd timau bach ar draws y wlad. Ro'n i'n colli cael sgwrsio gyda Chris Packham ac, wrth gwrs, doedd Michaela Strachan ddim yn cael hedfan draw o Dde Affrica. Ond ar y cyfan, dw i'n meddwl bod pobl wedi mwynhau'r fformat newydd. Wedi'r cyfan, y bywyd gwyllt yw sêr y sioe, nid y cyflwynwyr.

Dach chi'n meddwl bod mwy o ddiddordeb ym myd natur yn ystod y cyfnod clo?
Dw i'n meddwl bod y cyfnod clo wedi dod â llawer o bobl yn agosach at fyd natur. Gyda mwy o amser ar ein dwylo a llai o lefydd i ymweld â nhw, mae llawer un wedi dod i adnabod eu **milltir sgwâr** yn well. Yn sicr, mae byd natur wedi helpu iechyd meddwl pobl.

Pa adar fydd i'w gweld yn ein gerddi yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst?
Bydd yr ardd yn weddol dawel o ran adar. Ar yr amser yma o'r flwyddyn, mae digon o fwyd naturiol o gwmpas yn y coed a'r perthi a does dim angen i'r adar ddod i mewn i'n gerddi. Wedi dweud hynny, dw i'n sicr bydd **adar y to**, **y titywod**, adar duon ac yn y blaen yn amlwg iawn yn yr ardd yn ogystal â'r robin goch, llwyd y berth a'r **ji-binc**. Cadwch eich llygad ar agor am gywion ifanc achos ar ôl tymor nythu llwyddiannus, bydd digon o gwmpas gobeithio.

Springwatch presenter and bird expert Iolo Williams talks about the benefits of being closer to nature and about which birds to look out in your gardens over the summer months. Filming Springwatch was also a different experience under lockdown, but as always, the wildlife is the star of the show!

GEIRFA

ers cyn cof	since before I can remember
llwyd y berth	dunnock
deffro'r meirw	wake the dead
y gog	the cuckoo
diogelu	protect
Ynys Lawd	South Stack, Anglesey
effaith tymor byr	short term effect
milltir sgwâr	square mile (your local area)
adar y to	house sparrows
titywod	tits
ji-binc	chaffinch

Coginio gyda Elisabeth

Mae Elisabeth Haljas yn dod o Estonia yn wreiddiol, o Tallinn, ond mae'n byw ym Mhrydain ers 2011. Ym mis Medi 2018, symudodd i Gaerdydd. Mae Elisabeth yn astudio **deieteg**. Mae hi hefyd yn gweithio rhan amser mewn caffi ac mewn bar. Mae'n dysgu Cymraeg ers dwy flynedd.

I ddechrau, roedd eisiau dysgu i gael blas o'r iaith. Dechreuodd yn araf iawn, gan wneud hanner lefel Mynediad mewn blwyddyn.

Meddai Elisabeth, "Ond ar ôl sawl mis a deall ychydig am y **diwylliant** ac **ystyr** y Gymraeg i bobl, ro'n i eisiau bod yn ddigon rhugl erbyn i fi **raddio**, er mwyn gallu siarad â **chleifion** a phobl eraill yn Gymraeg yn y gwaith."

Diolch i Elisabeth am rannu'r rysáit blasus a iachus yma!

RHOLIAU HAF

Cynhwysion

Tua 15-20 papur reis (dw i'n defnyddio un 16cm ar draws)

Llenwad

1/2 ciwcymbr
1 foronen
1 afocado
1 pupur melys coch
Ychydig o **fresychen** goch
Cwpl o fefus
Llond llaw bach o ddail mintys ffres
3 shibwnsyn
Powlen fach o **ferwr y gerddi**
Neu unrhyw fath o bethau eraill fel letys, **eginyn ffa**, winwnsyn coch, coriander, nwdls reis, mango **ac ati**.

Saws

5 llwy fwrdd **menyn pysgnau**
Sudd 2 leim
1 llwy fwrdd tamari /saws soi
15g **sinsir** (tua 1 fodfedd)
1 clof o **arlleg**
5 llwy fwrdd dŵr
1 (pupur) tsili



Cyfarwyddiadau

1. Torrwch y llysiau mewn darnau fel coes matsien (julienne). **Tafellwch** y mefus a'r shibwnsyn.
2. Paratowch un bowlen efo dŵr poeth, a'r bwrdd torri (ble dych chi'n gallu gwneud y rholiau).
3. Dipiwch un papur reis yn y dŵr nes bod y papur yn hollol wlyb, tua 5 eiliad.
4. Rhowch ychydig o bob math o'r llenwad ar ben y papur, yn y canol.
5. Rholiwch flaen y papur at y llenwad, ar ôl hynny, yr ochrau, a daliwch i rolio ymlaen.
6. Ail-wnewch hynny tan fydd dim papur reis neu lenwad ar ôl. Cadwch y rholiau ar wahân (maen nhw'n **cydio'n hawdd** ac yn dynn iawn at ei gilydd).
7. Ar gyfer y saws, cymysgwch y cynhwysion mewn prosesydd bwyd nes bod popeth yn **llyfn**.

Mwynhewch!

GEIRFA

deieteg	dietics
diwylliant	culture
ystyr	meaning
graddio	graduate
cleifion	patients
bresychen	cabbage
shibwnsyn	spring onion
berwr y gerddi	cress
eginyn ffa	pea shoot
ac ati	and so on
menyn pysgnau	peanut butter
sinsir	ginger
garlleg	garlick
tafellwch	slice
cydio'n hawdd	sticks easily
llyfn	smooth

Originally from Estonia, Elisabeth Haljas now lives in Cardiff where she's studying to be a dietician. Elisabeth has been learning Welsh for two years and wants to be able to use the language with her patients in future. Here, she shares her recipe for 'Summer Rolls'.

DYSGU CYMRAEG O BELL yn Stockholm a Coventry

Ers mis Mai, mae mam a merch, Barbara Raybould a Lauren Black, yn dysgu Cymraeg ar Zoom gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain. Mae Barbara yn byw yn Coventry, i edrych ar ôl ei thad, ond fel arfer mae'n byw ac yn gweithio yng Nghymru am ran o'r wythnos. Mae Lauren yn byw yn Stockholm, Sweden, ble mae'n cynllunio dillad bechgyn siop ddillad H&M.

BARBARA

Pam oeddet ti isio dysgu Cymraeg?
Ro'n i isio gwneud rhywbeth positif achos dw i ar 'furlough' o'r gwaith ac yn edrych ar ôl fy nhad yn Coventry.

O le wyt ti'n dŵad yn wreiddiol?
Dw i wedi byw yng Nghymru ers 1982 **tan yn ddiweddar**. Mae gen i ddwy ferch. Mi gaeth y ddwy ferch eu geni a'u **magu** yng Nghymru.

Wyt ti wedi dysgu Cymraeg o'r blaen?
Na, dyma'r tro cyntaf.

Pam oeddet ti isio dysgu?
Mi wnaeth Lauren ffeindio'r cwrs ar-lein ac ro'n i'n hapus iawn. Dw i'n byw a gweithio yng Nghymru am ran o'r wythnos. Dw i isio dechrau siarad Cymraeg a gwybod mwy na sut i ddeud enwau llefydd.

Wyt ti'n hoffi dysgu ar Zoom?
Ydw, dw i'n mwynhau yn fawr. Mae'n dda i gyfarfod pobl newydd yn y cyfnod clo.

Wyt ti'n mwynhau'r cwrs?
Ydw, mae ein tiwtor, Huw, yn bositif iawn ac yn rhoi digon o **anogaeth**.

Wyt ti'n ymarfer tu allan i'r dosbarth?
Ydw. Dw i'n siarad pob wythnos efo Lauren - mae hi'n helpu efo'r **ynganu**. (Dach chi'n cofio 'Friends' pan mae Phoebe yn dysgu Joey i siarad Ffrangeg?

Dw i fel Joey, ac mae Lauren fel Phoebe!).

Be ydy eich gwaith?
Dw i'n gweithio fel Rheolwr Canolfan Addysg Awyr Agored Bryntysilio yn Llangollen. Dw i'n gweithio yno ers 17 mlynedd. Dw i'n mynd i ymarfer siarad efo'r staff sy'n dysgu Cymraeg. Dw i'n gobeithio defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith hefyd.

Be dach chi isio ei wneud ar ôl y cwrs yma?
Dw i isio cario ymlaen i ddysgu Cymraeg. Dw i'n gobeithio gwneud cwrs arall ym mis Medi.

LAUREN

O le wyt ti'n dŵad?
Dw i'n dŵad o Gymru. Mae Mam yn dŵad o Iwerddon ac mae dad yn dŵad o Loegr.

Wyt ti wedi dysgu Cymraeg o'r blaen?
Do, yn yr ysgol hyd at Blwyddyn 11 – ond dw i ddim wedi siarad Cymraeg ers gadael yr ysgol.

Pam oeddet ti isio dysgu efo dy fam?
Dw i wedi isio dysgu Cymraeg ers blwyddyn neu ddwy, ond roedd yn anodd achos do'n i ddim yn byw yng Nghymru. Pan wnes i glywed am y cwrs, gwnes i ffonio Mam ac mi wnaethon ni benderfynu cofrestru.

Wyt ti'n hoffi dysgu ar Zoom?
Ydw, mae'n ardderchog! Dw i'n medru dysgu pan dw i'n byw **tramor**.

Wyt ti'n mwynhau'r cwrs?
Ydw, mae'r tiwtor, Huw, yn llawn egni ac yn hwyl.

Wyt ti'n medru ymarfer siarad Cymraeg?
Mae ffrind yn byw yn Wrecsam ac yn siarad Cymraeg ac felly dan ni'n trio siarad Cymraeg.

Be dach chi isio ei wneud ar ôl y cwrs yma?
Dw i isio siarad Cymraeg yn rhugl. Yna, dw i isio dysgu Sbaeneg!

Mother and daughter, Barbara and Lauren, are learning Welsh together, on Zoom. Barbara is living in Coventry at the moment, where she's caring for her father. Lauren lives in Stockholm in Sweden, where she works as a clothes designer for H&M. The pair are enjoying the course, led by enthusiastic tutor, Huw, and plan on learning more in September.

GEIRFA

tan yn ddiweddar	until recently
magu	raised
anogaeth	encouragement
ynganu	pronunciation
tramor	abroad

Nuy CHWAER

Y chwiorydd Kizzy ac Eadyth Crawford sy'n sôn am eu magwraeth a'u cefndir cerddorol.

Beth yw eich cefndir?
Gwnaethon ni symud i Aberaeron o Loegr pan o'n i'n dair oed ac Eady yn un, a mynd i Ysgol Gynradd Aberaeron. Roedd hi'n hyfryd dysgu Cymraeg a bod yn rhan o'r byd Cymraeg. Roedd hi'n anodd bod yr unig bobl ddu. Roedd ychydig o **hiliaeth**, ond gwnaeth dysgu'r iaith helpu ni i ffitio mewn a ffeindio ein **hunaniaeth**, sef Cymraeg gyda chefndir Bajan.

Aethon ni i sawl ysgol. Gwnaethon ni symud o gwmpas, o Aberaeron i Landeilo i Ferthyr Tudful!

Ydy eich teulu yn gerddorol?
Ydy. Roedd Mam bob amser yn chwarae cerddoriaeth pan o'n ni'n fach, a Dad hefyd, pryd ro'n ni'n mynd i aros gyda fe. Dysgodd Mam ganu'r piano pan oedd hi'n ifanc a hefyd roedd hi'n canu mewn côr yn yr ysgol. Roedd hi bob amser eisiau i ni gymryd rhan yn yr Eisteddfod ac roedd hi'n hoffi ein helpu ni i ddysgu'r caneuon.

Roedd diddordeb gyda ni mewn cerddoriaeth unwaith ro'n ni'n gallu cerdded a siarad!

Beth yw eich diddordebau eraill?
'Dyn ni'n mwynhau natur a chefn gwlad, a 'dyn ni'n cerdded ac yn ysgrifennu cerddoriaeth.

Hefyd 'dyn ni'n hoffi celf, creu fideos cerddoriaeth a bod yn greadigol. Yn ddiweddar, 'dyn ni wedi dechrau dysgu sut i **sglefr-fyrddio** - mae'n hwyl!

Beth yw eich uchelgais?
I weithio yn y byd cerddorol a chael ein hysbrydoli. A bod yn **gynhyrchwyr benywaidd llwyddiannus**.

Pwy yw'r dylanwad mwyaf arnoch chi o ran cerddoriaeth?
Steely Dan, Erykah Badu, Omar Lye Fook, Carpenters, Kate Bush a Massive Attack.

Pa ganeuon Cymraeg dych chi'n hoffi?
'Dyn ni'n hoffi pob cân ar yr albym Ghazalaw, Mirores gan Ani Saunders a Cwestiynau gan Mr Phormula. Maen nhw'n **unigryw**.

Beth dych chi'n mwynhau fwyaf am siarad Cymraeg?
Mae'r iaith mor bert ac **unigryw**. Mae'n broses mor arbennig i ysgrifennu yn Gymraeg. Mae siarad yr iaith wedi ein helpu ni i deimlo'n rhan o'r gymuned. Yn fwy nag unrhyw beth, mae'n ffordd arall o **fynegi** ein hunain.

Beth yw eich cyngor i ddysgwyr?
Peidiwch â gadael i bethau fel treigladau eich stopio chi - **canolbwyntiwch** ar eich taith eich hunain.

Sisters Kizzy and Eadyth Crawford moved to Wales from Oxford when they were little. They lived in Aberaeron, before moving to Llandeilo and then Merthyr Tydfil. Learning and speaking Welsh has helped them feel part of the community and find their identity, as Welsh speakers with Bajan heritage. Both sisters are successful singer-songwriters. Listen to Kizzy sing the traditional Welsh folk song, 'Dafydd y Garreg Wen.'

GEIRFA

hiliaeth	racism
hunaniaeth	identity
sglefr-fyrddio	skateboarding
cynhyrchwyr benywaidd llwyddiannus	successful female producers
unigryw	unique
mynegi	express
canolbwyntiwch (berf enw: canolbwyntio)	concentrate

Hwyl yr HAF